**Dyddiad** / Date 10 Mawrth 2021
**Gofynnwch am** / Ask for M Curtis
**Rhif ffôn** / Telephone 01446 709828
**Ffacs** / Fax
**e-bost** / e-mail 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk
**Eich Cyf** / Your Ref
**Fy Nghyf** / My Ref 21C/WHS

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111

I: Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Whitmore; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore; Ymgyngoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i drawsnewid addysg arbenigol drwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.**

Bu'r Cyngor yn ymgynghori ag ymgynghoreion penodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad ag ymgynghoreion penodedig rhwng 5 Hydref 2020 a 20 Tachwedd 2020. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i ymgynghoreion penodedig am y cynnig. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, derbyniwyd 19 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad sef 18 Hydref 2020. Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ar y cynnig. Roedd pob un o'r 19 o ymatebwyr (100%) o blaid y cynnig.

Ar 21 Rhagfyr 2020, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 13 Ionawr 2021 a'i ddosbarthu i ymgyngoreion rhagnodedig a'i arddangos ar brif fynedfeydd Ysgol Uwchradd Whitmore. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hyn. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi ar 13 Ionawr 2021, roedd rhaid derbyn gwrthwynebiadau statudol erbyn 9 Chwefror 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

**Ar 8 Mawrth 2021, ystyriodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg yr holl ddogfennau perthnasol eraill a phenderfynodd gymeradwyo'r cynnig.**

**Mae copïau caled o'r adroddiadau ar gael ar gais drwy gysylltu ag aelod o'r Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif ar: [21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk)**

Bydd y cynnig yn golygu y byddai darpariaeth addysgol arbenigol yn cael ei sefydlu yn Ysgol Uwchradd Whitmore ar gyfer disgyblion sydd â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistig (CSA).

Mae adeilad newydd yn cael ei godi ar hyn o bryd ar gyfer Ysgol Uwchradd Whitmore ar ei safle presennol. Dyrannwyd rhan o'r adeilad ar gyfer canolfan adnoddau arbenigol. Cynigir y byddai hyn yn canolbwyntio ar ddisgyblion CSA. Byddai'r ganolfan yn cael ei rheoli gan bennaeth a chorff

llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore. Mae'r ardal wedi'i dylunio i dderbyn hyd at 20 o ddysgwyr. Cynigir y caiff y ganolfan ei sefydlu fis Medi 2021.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Darparu cymorth targedig a gyfer disgyblion CSA mewn amgylchedd ysgol uwchradd er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial;
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Gwneud darpariaeth yn y Fro ar gyfer niferoedd uwch o'n disgyblion CSA;
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ledled Ysgol Uwchradd Whitmore; a
- Sicrhau llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn cysylltiad â'r ffactorau wedi'u hamlinellu yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Mae'n debygol y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg. Fel y nodwyd gan yr ymatebwyr, byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig newydd yn Ysgol Uwchradd Whtimore ar gyfer Disgyblion CSA yn galluogi mwy o ddisgyblion i gael mynediad at addysg brif ffrwd a allai fel arall cael eu rhwystro rhag manteisio arni.

Mae'r adeilad newydd a'r safle yn Ysgol Uwchradd Whitmore wedi'i ddylunio i fodloni anghenion ystod eang o ddisgyblion a byddai'n darparu mwy o fynediad at y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol

Câi'r ganolfan adnoddau arbenigol ei rheoli gan bennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore. Mae'r ardal wedi'i dylunio i dderbyn hyd at 20 o ddysgwyr. Cynigir y caiff y ganolfan ei sefydlu gan agor adeilad newydd yr ysgol o fis Medi 2021.

Nododd ymateb ymgynghori Estyn "nad yw'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith niweidiol ar ddysgwyr ac mae'n debygol y caiff safonau addysgol yn yr ardal eu chynnal o leiaf."

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o strategaeth y Cyngor i weddnewid addysg arbennig ym Mro Morgannwg er mwyn ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol a bodloni anghenion ein dysgwyr mwyaf agored i niwed orau.

Byddai gosod y ganolfan adnoddau arbenigol mewn ysgol uwchradd brif ffrwd, sef Ysgol Uwchradd Whitmore, yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion CSA wrth sicrhau y gallant gael mynediad at addysg uwchradd brif ffrwd. Byddai hyn yn lleihau'r galw am leoedd yn Ysgol y Deri, wrth sicrhau hefyd bod darpariaeth ar gyfer disgyblion na fyddent fel arfer yn bodloni'r meini prawf ar gyfer lleoliadau yn Ysgol y Deri.

Bydd pob derbyniad i'r ganolfan adnoddau arbenigol drwy Banel yr Awdurdod Lleol, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Ymgysylltu ac Ysgol Uwchradd Whitmore.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Adnoddau ariannol

Mae'r gwaith cyfalaf ar gyfer sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore

wedi'i gynnwys fel rhan o'r adeilad newydd sy'n cael ei godi ar hyn o bryd.

Byddai angen cyllid refeniw ychwanegol i ariannu'r ddarpariaeth. Câi ymagwedd graddol ei fabwysiadu gyda darpariaeth ar gyfer 10 disgybl o fis Medi 2021 a fyddai'n cynyddu i 20 disgybl o fis Medi 2022.

Byddai'r Cyngor yn darparu cyllid pontio ychwanegol fel rhan o gyllideb 2021/22 i benodi arweinydd y ddarpariaeth cyn agor.

Bydd angen cyflogi athro arweiniol ar gyfer y ganolfan o fis Ebrill 2021 er mwyn sicrhau bod cynllunio effeithiol yn cael ei wneud cyn agor. O fis Medi 2021 câi cyllid ychwanegol ei ddyrannu i ariannu cynorthwy-wyr cymorth dysgu (LSA) a fyddai eu hangen i ddarparu cymorth uniongyrchol i ddysgwyr. O fis Medi 2022 câi cyllid ychwanegol ei ddyrannu i ariannu athro a chynorthwywyr ac LSAs ychwanegol yn unol â'r cynnydd o ran disgyblion.

Byddai'r ysgol hefyd yn derbyn cyllid a arweinir gan ddisgyblion fel rhan o fformiwla ariannu'r ysgol a fyddai'n seiliedig ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr.

Cafodd pwysau cost eu cyflwyno am £176,000 yn 2021/22 a £108,000 ychwanegol yn 2022/23. Byddai gweithredu'r cynnig yn dibynnu ar a yw'r cyllid refeniw gofynnol ar gael.

Adnoddau Dynol ac anghenion dysgwyr

Byddai'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth lawn i'r staff a'r corff llywodraethu i sicrhau bod y cynnig yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Byddai'r ganolfan yn cael ei rheoli gan bennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore. Mae'r ardal wedi'i dylunio i dderbyn hyd at 20 o ddysgwyr. Cynigir y caiff y ganolfan ei sefydlu gan agor adeilad newydd yr ysgol o fis Medi 2021.

Yn eu sesiynau ymgynghori, nododd y disgyblion fod "angen sgwrs â dosbarthiadau prif ffrwd am yr uned a chreu 'ethos' o dderbyn/goddefgarwch". Un o rolau allweddol y Ganolfan Adnoddau Arbenigol fyddai cefnogi'r gwaith o weithredu polisïau a gweithdrefnau ar draws yr ysgol i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i bob disgybl yn Ysgol Uwchradd Whitmore. Yn ystod y cyfnod pontio byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r staff a'r corff llywodraethu i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sefydlu diwylliant o ddealltwriaeth a chydweithredu rhwng disgyblion prif ffrwd a'r rhai â diagnosis o Gyflyrau ar y Sbectrwm Awtistig sy'n mynychu'r ganolfan. Byddai anghenion hyfforddi ar draws yr ysgol yn cael eu nodi yn ystod y cyfnod pontio a byddent yn cael eu cynnwys fel rhan o raglen hyfforddi a datblygu'r ysgol.

Byddai staff ychwanegol yn cael eu recriwtio gan yr ysgol i gefnogi dysgwyr o fewn y ganolfan, a fyddai'n cynnwys penodi athro arweiniol i reoli'r ddarpariaeth. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

## Ffactorau cyffredinol eraill

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â'r nodweddion a ddiogelir o ran oedran, anabledd ac ailbennu/hunaniaeth rhywedd. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng y rhai â nodweddion a ddiogelir gwahanol.

Nid ymddengys y bu effaith negyddol ar y nodweddion a ddiogelir a nodwyd. Bydd gweithredu'r

cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb (2010), er enghraifft trwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch gyda chyfleusterau niwtral o ran y rhywiau.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 4 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 4 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral / gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi Ysgol Uwchradd Whitmore i greu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol a fyddai'n gallu addasu i newid ac yn herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig yn diwallu anghenion y gymuned yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol.

**Yn gywir,**



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau